Seicoleg plentyndod ac ieuenctid E219

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r prif themâu yn natblygiad plant drwy'r blynyddoedd cynnar, y plentyndod canol hyd at y glasoed, yn edrych ar ymlyniad, hunaniaeth, emosiynau, cynrychiolaeth a chyfathrebu. Mae'r modiwl yn integreiddio ystod o ddulliau, o seicoleg ddatblygiadol ac astudiaethau plentyndod ac yn gwneud defnydd sylweddol o ddeunyddiau sain a fideo, gan gynnwys nifer o ffilmiau dogfen wedi'u creu yn arbennig. Bydd y modiwl hwn o ddiddordeb i fyfyrwyr seicoleg, y blynyddoedd cynnar a phlentyndod ac ieuenctid ac unrhyw fyfyriwr sydd â diddordeb mewn theorïau ac ymchwil gyfoes mewn seicoleg ddatblygiad, gan gynnwys dylanwad y teulu a diwylliant.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r fanyleb gyffredinol ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn seicoleg neu faes cysylltiedig megis astudiaethau plentyndod
- profiad o arwain tiwtorialau, marcio a rhoi adborth ar aseiniadau
- diddordeb ym maes seicoleg ddatblygiadol ac astudiaethau plentyndod
- y gallu i ymgysylltu â phobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd a'u cefnogi nhw
- diddordeb mewn cymhwyso theorïau, cysyniadau a chanfyddiadau academaidd at faterion ymarferol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6